| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Hyfforddiant Toiled - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, staff meithrinfa, rhieni a phlant |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Dim angen - Canllawiau yn Unig* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<table>
<tr><td>Perchennog y Ddogfen:<br>Document Owner:</td><td colspan="3">Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager</td></tr>
<tr><td>Ymgynghoriad/<br>Consultation:</td><td colspan="3">Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa</td></tr>
<tr><td rowspan="6">Dyddiad Cymeradwyo /<br>Date Approved</td><td colspan="2">Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group</td><td>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:</td><td>22/01/2025</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:</td><td>Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td>Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td colspan="2">Corff Llywodraethu / Governing Body:</td><td>Os yn berthnasol / If applicable</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:<br>Review Date:</td><td colspan="3">31/01/2028</td></tr>
</table>

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Mae hyfforddiant toiled wedi cael ei amgylchynu gan 'goelion gwrachod' am flynyddoedd, gan achosi rhieni pryderus i gredu y dylai eu plant fod allan o'u clytiau mor ifanc â phosibl. Mae'r farn y dylai hyfforddiant toiled gael ei gyflwyno mor ifanc â 3-12 mis yn hen ffasiwn; os nad yw'r plentyn, yr oed hwn, yn digwydd 'gadael' rhywbeth yn y poti, cyd-ddigwyddiad yn unig yw hyn. Does dim amser penodol, mae'n ddatblygiad personol, ond nid oes gan blant reolaeth pledren nes eu bod yn tua 2 oed. Mae dechrau hyfforddi yn ddibwynt nes bod eich plentyn yn gwybod ei fod ef/hi wedi gwlychu o leiaf. Yna bydd yn arwain at eich plentyn yn sylweddoli eu bod angen mynd i'r toilet cyn i hynny ddigwydd.

Mae'n bwysig cofio nad yw hyfforddiant cynnar yn fwy o arwydd o ddeallusrwydd na datblygu dannedd yn gynnar. Hefyd mae'n werth ystyried y gall plentyn sy'n cael ei hyfforddi cyn i'r rheolaeth pledren/coluddyn gael ei ddatblygu, fod yn ddigalon oherwydd nifer o ddamweiniau a pheidio fod eisiau defnyddio'r poti, neu ddal eu symudiadau pledren/coluddyn hyd yn oed. Dyma ble gall problemau ddechrau'n aml.

Mae ychydig o bwyntiau i'w hystyried wrth ddechrau'r hyfforddiant toiled:

> Ydy'r plentyn yn gwybod pan fo ef/hi wedi gwlychu?
> Rhowch nhw i eistedd ar y poti yn rheolaidd - peidiwch â'u gorfodi!
> Pan fo ef/hi yn defnyddio'r poti - rhowch wobr

**C) Pryd ddylid dechrau hyfforddiant toiled?**

Dylai hyfforddiant toiled ddechrau pan fo'r plentyn yn barod yn unig (fel arfer o 24 mis ymlaen). Fel arfer mae merched yn hyfforddi cyn bechgyn ond peidiwch â phoeni os nad yw eich plentyn yn dangos unrhyw ddiddordeb pan maen nhw bron yn 3; fe ddaw ac mae'n debygol y bydd eich plentyn yn 'sych' yn gyflym pan na fydd o dan bwysau.

Rhaid i rieni/gofalwyr ymrwymo, rhaid iddynt sylweddoli y bydd damweiniau'n digwydd.

Peidiwch â dechrau hyfforddiant toiled os oes newid wedi bod ym mywyd y plentyn h.y. babi newydd, tŷ newydd, dechrau yn y feithrinfa ac ati.

Mae nifer o bobl yn credu ei fod yn well gwneud hyfforddiant toiled yn yr haf, fel gall y plentyn redeg o gwmpas heb eu clwt, oherwydd yn y dechrau yn aml nid ydynt yn sylweddoli eu bod angen y toiled nes eiliadau cyn hynny. Yn aml mae'n syniad da cael poti ar gael yn agos bob amser.

**C) Sut i gyflwyno'r poti?**

Cynghorir i'r poti gael ei gyflwyno ychydig o fisoedd cyn dechrau'r hyfforddiant, fel rhywbeth i chwarae - rhoi dolis, tedis arno ac ati.

Mae plant sydd mewn oed ar gyfer hyfforddiant toiled bob amser yn awyddus i ddynwared yr hyn maent wedi'i weld, felly gall gweld plant eraill yn defnyddio'r poti/toiled annog eich plentyn i fod eisiau gwneud hynny.

Beth am sgwrsio'n gyffredinol am y poti/toiled, gyda 'tedi' (er enghraifft) yn cael pi/pŵ ar y poti, neu ddweud wrth eich plentyn efallai hoffai geisio cael pi/pŵ ar y poti fel un o'u ffrindiau. Mae'n bwysig gofalu i beidio â rhoi pwysau ar eich plentyn mewn unrhyw ffordd.

**C) Poti neu'r toiled?**

Does dim ateb cywir nac anghywir, mae'n ddewis unigol. Mantais poti, wrth gwrs, yw ei fod yn gludadwy. Ond ni fydd rhai plant eisiau defnyddio un a bydd yn well ganddynt fynd yn syth ar y toiled. Os yw hynny'n wir, cynghorir y dylai eich toiled gael ei 'addasu' i fod yn addas ar gyfer eich plentyn. Byddant yn teimlo'n fwy sicr gyda step fel y gallant ei gyrraedd yn hawdd (rydyn ni i gyd yn gwybod eu bod yn hoffi bod yn annibynnol) a set plentyn wedi'i roi tu mewn i'r un oedolyn.

Cynghorir hefyd i blant ddod i arfer defnyddio toiledau, fel y gellir osgoi damweiniau wrth fentro allan. Wrth gwrs, gall hyfforddiant toiled godi problemau bach. Yn y dechrau gall damweiniau ddigwydd wrth fod allan yn siopa neu ar ymweliad ac ati. Efallai ei fod yn syniad da mynd ar y poti cyn gadael y tŷ, neu gael poti yn y car. Efallai y bydd eich plentyn yn amharod i fynd yn ôl i wisgo clwt ar gyfer achlysur fel hyn a gallant ddrysu os nad yw eu harferion hyfforddi yn gyson.

**Gweithio gyda'n Gilydd**

Gan y bydd eich plentyn yn hyfforddi adref ac yn y feithrinfa, rydyn ni yn Toybox yn teimlo y byddai'n fuddiol i'ch plentyn pe byddem yn gweithio gyda'n gilydd, gan sicrhau bod eu hyfforddiant toiled yn gyson gartref ac yn y feithrinfa i osgoi unrhyw broblemau diangen.

Cafodd y staff a'r ymwelydd iechyd sesiwn taflu syniadau i lunio'r rhestr beth i'w gwneud a pheidio â'i wneud ganlynol er mwyn gwneud hyfforddiant toiled mor llyfn â phosibl ar eich cyfer chi a'ch plentyn. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau pellach, mae pob croeso i chi ofyn.

**Hyfforddiant Toiled: Pethau i'w Gwneud**

Eglurwch i'ch plentyn am beth sy'n mynd i ddigwydd a beth i'w wneud.

Canmolwch eich plentyn ar ôl iddynt ddefnyddio'r poti/toiled.

Byddwch yn amyneddgar.

Gofynnwch i'ch plentyn a'u hatgoffa'n aml.

Gwnewch yr hyfforddiant yn hwyl e.e. poti hwyliog, system wobrwyo.

Cadwch i'r un arferion. Byddwch yn gyson, peidiwch â newid o ddillad isaf i glytiau, dewiswch un a chadwch ato gartref ac yn y feithrinfa.

Sicrhewch fod gennych chi boti lle gall eich plentyn ei gyrraedd eu hunain bob amser.

Rhowch y plentyn mewn dillad hawdd i'w tynnu i ffwrdd (trowsus loncian ac ati).

Peidiwch ag annog diodydd fel te, coffi a coke.

**Ewch a nifer o ddillad sbâr i'r feithrinfa.  Mae rhai plant yn digalonni wrth orfod gwisgo dillad y feithrinfa.**

Ar ôl cael damwain, siaradwch amdano ac egluro beth i wneud tro nesaf.

**Hyfforddiant Toiled: Pethau i beidio â'u gwneud**

- Peidiwch â disgwyl gormod. Ni fydd yn digwydd dros nos.
- Peidiwch â gweiddi na bod yn flin gyda'ch plentyn na dweud wrthynt fod damweiniau yn ddrwg, waeth faint o ddamweiniau maent wedi'u cael.
- Peidiwch â rhoi pwysau ar blentyn i eistedd ar y poti.
- Peidiwch â gwneud hyfforddiant toiled yn gymaint o broblem, ei fod yn achosi gofid i chi a'ch plentyn.
- Peidiwch â gwisgo eich plentyn mewn dillad na allant eu tynnu i ffwrdd eu hunain h.y. dyngarîs, beltiau, botymau stiff ac ati.
- Peidiwch â chyfyngu diodydd.

Os yw'n ymddangos nad yw eich plentyn yn gwybod pryd mae angen y poti arnynt ar ôl tua wythnos o geisio'r hyfforddiant toiled, rydyn ni'n argymell i chi roi'r gorau i'r hyfforddiant toiled am o leiaf mis arall.

Os ydych chi'n teimlo'n bryderus, gofynnwch am gyngor gan Staff y Feithrinfa neu eich Ymwelydd Iechyd bob amser.